

Mae'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol (AHF) yn helpu cymunedau i ddod o hyd i ffyrdd mentrus o adfywio'r hen adeiladau maen nhw'n eu caru. Mae ein hariannu'n cefnogi elusennau a mentrau cymdeithasol i ddatblygu defnyddiau newydd cynaliadwy ar gyfer adeiladau hanesyddol sy'n ddiangen neu'n cael eu tanddefnyddio. Ein nod yw sicrhau cadwraeth adeiladau hanesyddol, yn ogystal â helpu grwpiau i fod yn berchen ar adeiladau hanesyddol a'u rheoli yn yr hirdymor. Rydym yn gwneud hyn trwy ddarparu *grantiau* ar gyfer datblygu camau cynnar prosiectau a *benthyciadau* ar unrhyw gam o'r broses. Mae'r canllaw hwn yn rhoi mwy o wybodaeth am ein **grantiau**.

Mae'r gwaith datblygu yr ydym yn ei ariannu yn galluogi grwpiau i brofi syniadau ar gyfer aildefnyddio adeilad ac i baratoi cynlluniau manwl er mwyn bod yn barod i ddechrau'r gwaith. Yng Nghymru, gellir lleoli prosiectau yn unrhyw leoliad – mewn dinasoedd, trefi neu ardaloedd gwledig.

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i'ch helpu chi i benderfynu a yw ein cymorth yn addas i chi – darllenwch y canllawiau yn llawn. Rydym yn ceisio bod mor hyblyg â phosibl wrth reoli ein grantiau ac rydym bob amser yn hapus i drafod prosiectau a chynnig cyngor ar unrhyw gam.

Os credwch fod eich prosiect yn gymwys ac yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau cyllido, neu os hoffech gael cyngor pellach, ***cwblhewch y ffurflen ymholiadau ar-lein a bydd un o'n swyddogion cymorth yn cysylltu â chi.***

Yn gyffredinol, bydd eich prosiect yn gymwys os yw pob un o'r canlynol yn berthnasol:

- mae eich prosiect yn cynnwys adeilad hanesyddol, yr ydym yn ei ddiffinio fel un o'r canlynol:
 - adeilad rhestredig – Categori I, II*, neu II
 - adeilad nad yw'n rhestredig ond mewn ardal gadwraeth, a/neu
 - adeilad sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan y gymuned leol am ei ddiddordeb hanesyddol
- mae eich prosiect yn cynnwys newid defnydd sylfaenol a/neu newid perchnogaeth
- mae eich prosiect yn cael ei arwain gan sefydliad nid-er-elw preifat

Pethau na allwn eu hariannu:

- gwaith sydd wedi cychwyn cyn y penderfyniad i ddyfarnu grant
- costau atgyweirio nad ydynt yn rhan o gynllun mwy i ddod o hyd i ddefnydd cynaliadwy newydd
- costau cynnal a chadw parhaus

Darllenwch ymlaen am fanylion pellach ar gymhwysedd a'r hyn yr ydym yn edrych amdano wrth asesu ceisiadau.

Pa un o'n grantiau a allai fod yn addas i chi?

Y cam rydych chi wedi'i gyrraedd	Cynllun grant	Y gylchred penderfynu
Yn cychwyn arni <p>Efallai eich bod yn ystyried ffurfio sefydliad, wedi sefydlu un yn ddiweddar neu'n sefydliad hirsefydlog sy'n mynd i'r afael â phrosiect newydd. Rydych chi wedi nodi adeilad neu adeiladau – naill ai adeilad sydd eisoes yn eich perchnogaeth, neu adeilad rydych chi'n ystyried cymryd perchnogaeth ohono. Efallai bod gennych chi rai syniadau ynglŷn â sut y gellid adfer a defnyddio'r adeilad, ond rydych chi am archwilio'r opsiynau a phrofi a fydd y rhain yn gweithio.</p>	Grant Hyfywedd Prosiect <p>Hyd at £10,000</p>	Bob mis
Yn barod i symud ymlaen <p>Rydych chi eisoes wedi cwblhau'r gwaith dichonoldeb a hyfywedd sydd ei angen, ond mae angen i chi wneud gwaith manylach i ddatblygu'ch cynlluniau a helpu i sicrhau cyllid cyfalaf i gyflawni'ch prosiect.</p>	Grant Datblygu Prosiect <p>Hyd at £10,000 Hyd at £20,000</p>	Bob mis Chwarterol
Yn barod i adfer eich adeilad <p>Bydd eich cynlluniau'n agos at gael eu datblygu'n llawn ac efallai y bod rhywfaint o'ch cyllid cyfalaf cyflenwi eisoes wedi'i sicrhau, ond mae bwch cyllido y mae angen i chi ei lenwi o hyd. Neu mae angen i chi gwblhau gwaith brys i atal dirywiad pellach i'r adeiladwaith hanesyddol. Neu mae angen gwaith i brofi defnydd/defnyddiau 'yn y cyfamser'.</p>	Grant Gwaith Cyfalaf <p>Hyd at £50,000</p>	Unwaith y flwyddyn

Wrth ystyried pa grant sy'n gweddu orau i'r cam rydych chi wedi'i gyrraedd yn nhermau dyluniadu adeiladau, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi gyfeirio at Gynllun Gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain. Efallai y bydd hyn yn eich helpu i drafod eich gofynion gyda'ch pensaer a'ch tîm proffesiynol a datblygu briffiau ar gyfer eu gwaith. Gellir gweld canllaw cryno ar gamau Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) [yma](#), a nodir camau perthnasol y cynllun yn y tablau isod.

Cefnogir grantiau'r Gronfa Treftadaeth Pensaernïol yng Nghymru o ganlyniad i gyfraniadau ariannol gan [Cadw](#), [Sefydliad Garfield Weston](#) a [The Pilgrim Trust](#).



The Pilgrim Trust

Pwy all wneud cais

Rhaid i'ch sefydliad fod yn un o'r sefydliadau nid-er-elw preifat canlynol, neu'n sefydliad sy'n perthyn i haenau isaf llywodraeth leol

Sefydliad anghorfforedig (e.e. ymddiriedolaeth neu gymdeithas elusennol) sy'n bwriadu ymgorffori (ar gyfer Grantiau Hyfywedd Prosiect yn unig)

Sefydliad Corfforedig Elusennol

Cwmni elusennol wedi'i gyfyngu trwy warant

Cymdeithas Budd Cymunedol Elusennol

Cymdeithas Budd Cymunedol

Cwmni nid-er-elw preifat wedi'i gyfyngu trwy warant

Cwmni Buddiannau Cymunedol wedi'i gyfyngu trwy warant

Cydweithfa

Cyngor cymuned neu dref

Ni fyddwn yn ariannu

Unigolion preifat

Awdurdodau lleol neu gyrff sector cyhoeddus eraill (oni bai eu bod yn gwneud cais ar ran sefydliad sy'n dal i gael ei ffurfio)

Prifysgolion, colegau a sefydliadau addysgol prif ffrwd eraill, gan gynnwys ysgolion annibynnol

Cwmnïau elw, oni bai eu bod mewn partneriaeth dan arweiniad sefydliad nid-er-elw

Sefydliadau anghorfforedig (e.e. ymddiriedolaethau a chymdeithasau elusennol) nad ydynt yn bwriadu ymgorffori

Sefydliadau sydd â llai na thri ymddiriedolwr neu gyfarwyddwr (os nad oes ond tri ymddiriedolwr / cyfarwyddwr) – ni ddylai'r un o'r rhain fod yn briod nac yn gysylltiedig â'i gilydd fel arall

Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig

Eglwysi neu addoldai eraill, lle bydd yr adeilad yn parhau i gael ei ddefnyddio'n bennaf fel man addoli crefyddol – a ddiffinnir fel un sy'n cynnal mwy na chwe gwasanaeth crefyddol y flwyddyn

Sut rydym yn asesu eich cais

Potensial ar gyfer newid cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol

Cynigir newid defnydd a/neu newid perchnogaeth, neu rydych chi wedi caffael yr adeilad yn ddiweddar. Gyda defnydd newydd neu'n cael ei ddwyn i berchnogaeth gymunedol, rhaid i'r adeilad a'ch gweledigaeth ar ei gyfer fod â'r potensial i gynyddu bywiogrwydd y lle – cynyddu nifer yr ymwelwyr, ymestyn yr oriau pan fydd gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd yn digwydd, creu cynnig newydd i breswylwyr neu ymwelwyr. Rydym am weld bod gan brosiectau y potensial i sicrhau canlyniadau economaidd a chymdeithasol, gan ddefnyddio ased treftadaeth neu drwy waith sy'n seiliedig arno. Gall hyn gynnwys creu swyddi a busnes, ynghyd ag arwynebedd llawr yn cael ei ddefnyddio eto. Gall potensial cymdeithasol gynnwys cynnydd mewn gwirfoddoli, pobl yn datblygu sgiliau newydd, bod yn fwy balch o'r gymuned leol, a gwell llesiant. Rydym yn blaenoriaethu prosiectau sy'n dangos y potensial i gael effaith gadarnhaol mewn ardaloedd difreintiedig, megis cymunedau trefol sy'n profi dirywiad economaidd strwythurol, neu gymunedau gwledig ynysig sy'n cael mynediad gwael at wasanaethau. Rydym yn edrych am dystiolaeth o gyfranogiad a chefnogaeth gymunedol gref yn y prosiect. Rydym hefyd yn edrych ar effaith amgylcheddol bosibl eich prosiect – beth ydych chi am ei gyflawni a sut?

Perchnogaeth a gallu sefydliadol

Dylai eich sefydliad fod yn berchen ar yr adeilad, neu'n bwriadu ei gaffael, neu'n dal prydles hir ar ei gyfer. Dylai fod gan eich prydles (presennol neu arfaethedig) o leiaf 25 mlynedd ar ôl i'w rhedeg wedi cwblhau'r prosiect. Mewn achosion eithriadol a lle mae defnyddiau yn y cyfamser yn cael eu cynllunio wrth baratoi cynnig tymor hwy, efallai y byddwn yn gallu ystyried prosiectau sydd â phrydles fyrrach. Os ydych chi yn y sefyllfa hon, mae angen i chi drafod hyn gyda ni cyn gwneud cais. Byddwn yn ystyried gallu eich sefydliad i gyflawni – er enghraifft, a oes gennych unrhyw staff; beth yw cefndir a phrofiad eich ymddiriedolwyr?

Gwerth treftadaeth

Dylai eich adeilad fod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig a dylai eich cynigion gael eu harwain gan dreftadaeth. Bydd yn cael ei restru'n genedlaethol fel Categori I, II* neu II, neu, os nad yw wedi'i restru, bydd yn cael ei ystyried am gymorth os gellir cyflwyno achos argyhoeddiadol dros ei werth treftadaeth i bobl leol. Os yw wedi'i leoli o fewn ardal gadwraeth, bydd angen i chi ddangos bod yr adeilad yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. Rydyn ni'n rhoi blaenoriaeth i adeiladau sydd 'mewn perygl' ac yn edrych am dystiolaeth o hyn, megis adeiladau rhestredig sydd ar Gofrestr Adeiladau mewn Perygl Cadw, neu ryw esboniad ynghylch natur y bygythiad, a allai fod yn economaidd neu'n ffisegol.

Angen ariannol

Rydym yn blaenoriaethu ceisiadau a all ddangos cymorth ariannol ehangach ar ffurf rhywfaint o gyllid cyfatebol. Mae cyllid cyfatebol yn dangos ymrwymiad ehangach i'ch prosiect a pharodrwydd i rannu peth o'r risg. Gall gweithgarwch codi arian gan gymunedau lleol helpu i gynhyrchu ymwybyddiaeth a chymorth cymunedol. Mae gofynion cyllid cyfatebol yn wahanol ar draws y grantiau – gweler isod. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gallwn dderbyn cyfraniadau mewn da / gwirfoddol fel cyllid cyfatebol. Byddwn yn disgwyl ichi egluro pam bod arnoch angen grant, yn hytrach na ffynonellau eraill o godi arian.

Pam nawr?

Rydym yn edrych i ddeall sut y byddai ein cyllid yn eich helpu i symud y prosiect yn ei flaen. Efallai y byddai ein cyllid yn helpu i gyflawni carreg filltir prosiect, fel caffael adeilad, creu cynllun busnes, datblygu dyluniadau manwl, cyflwyno cais am gyllid. Rydyn ni eisiau deall pam bod y cyllid yn angenrheidiol yn awr, a pha wahaniaeth y bydd yn ei wneud. Os oes unrhyw gyfyngiadau amser, megis dyddiadau cau cyllid cyfatebol neu gyfyngiadau eraill, nodwch y rhain yn glir yn eich cais.

Grantiau Hyfywedd Prosiect

Gallwch wneud cais am uchafswm o £10,000. Y cynnig ar gyfartaledd yw £5,000.
Gallwn ariannu hyd at 100% o gost y gwaith dan sylw.

Beth yw pwrpas hwn?

Cyferwerth â cham 0 – 2 o Gynllun Gwaith RIBA

Archwilio'r gwahanol opsiynau ar gyfer ailddefnyddio, neu brofi a chyfrifo costau un opsiwn.

Mae hyn fel rheol yn cynnwys asesiad cychwynnol o gyflwr ac anghenion atgyweirio'r adeilad, atebion dylunio amlinellol sy'n cyd-fynd â'i werth treftadaeth a all ddarparu ar gyfer y defnyddiau sy'n cael eu hystyried, a chost amlinellol y gwaith sydd ei angen i atgyweirio a thrawsnewid yr adeilad. Bydd hefyd yn cynnwys ystyried yr achos busnes amlinellol ar gyfer y defnyddiau posibl, yn seiliedig ar ymchwil ac ymgynghori, a sut y gellid ariannu'r prosiect. Mewn llawer o achosion, efallai y bydd angen cael prisiad eiddo annibynnol – er enghraifft, a all y strategaeth gyllido gynnwys buddsoddiad cymdeithasol (cyllid benthyciad) neu i nodi'r diffyg cadwraeth, sef lle bydd cost y prosiect yn fwy na gwerth yr adeilad wedi'i adfer.

Pwyntiau i'w nodi

Gallwn ariannu hyd at 100% o gost y gwaith dan sylw, er y bydd y pecyn gwaith cyffredinol sy'n ofynnol yn aml yn fwy nag y gallwn fforddio ei dalu ein hunain. Yn yr achos hwnnw, *er nad yw'n angenrheidiol, mae'n well gennym* weld rhywfaint o dystiolaeth sy'n dangos bod ariannu cyfatebol wedi'u sicrhau neu wedi'u ceisio: nid oes rhaid i chi fod wedi sicrhau unrhyw ariannu cyfatebol i allu gwneud cais. Mae ariannu cyfatebol yn golygu y byddech chi'n cyfrannu at rai o'r costau o'ch adnoddau eich hun a/neu arian a gesglir o ffynonellau eraill. Er enghraifft, gallai costau o £10,000 olygu eich bod yn gwneud cais i'r Gronfa Treftadaeth Pensaernïol am £5,000 ac yn gwneud cais i ffynonellau eraill am £5,000. Byddech chi'n nodi hyn yn y ffurflen gais.

Os ydych yn ansicr, trafodwch gyda'r swyddog cymorth perthnasol cyn cyflwyno'ch cais.

Os nad ydych eisoes yn berchen ar yr adeilad, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth sy'n profi bod gennych obaith rhesymol o sicrhau perchnogaeth – er enghraifft, llythyr gan y perchennog yn rhoi statws cynigydd a ffeirir i chi, neu ei fod wedi cytuno i ganiatáu amser ichi gasglu'r ariannu angenrheidiol.

Yn gyffredinol, dylech fod eisoes wedi sefydlu fel un o'r mathau sefydliadol a restrir uchod, ond, os rhan o'ch gwaith yw archwilio'r math gorau o sefydliad i'w sefydlu, byddwn yn derbyn ceisiadau cyn cofrestru'ch grŵp yn ffurfiol. Fel lleiafswm, byddwn am weld bod gennych strwythur llywodraethu cychwynnol, cyfansoddiad, a chyfrif banc sefydliad.

Mae'n well gennym i geisiadau fod yn seiliedig ar ddyfynbris cywir yn hytrach nag amcangyfrifiad. Os yw unrhyw eitem o waith yr ydych yn ceisio arian ar ei chyfer dros £10,000, rhaid i chi gael o leiaf tri dyfynbris cystadleuol. *Cysylltwch â swyddog cymorth os oes arnoch angen cymorth gyda hyn.*

Beth fydd y grant hwn yn eich helpu i'w gyflawni?

Ar ddiwedd y gwaith a ariennir, dylech fod mewn sefyllfa i benderfynu a ddylech ymrwymo i gostau, risgiau ac ymdrech bellach wrth ddatblygu'r prosiect, a dylech allu darparu map llwybr ar gyfer y camau nesaf. Gofynnwn ichi ddefnyddio ein templed Arfarnu Hyfywedd Prosiect i ddod â chanlyniadau unrhyw adroddiadau ac astudiaethau proffesiynol ynghyd â'ch gwybodaeth eich hun am y maes a'r prosiect posibl. Bydd hon hefyd yn ddogfen y gallwch chi wedyn ei chyflwyno i ddarpar gyllidwyr a rhai sy'n rhoi cymorth i helpu i egluro'ch cynlluniau.

Grantiau Datblygu Prosiect

Gallwch wneud cais am uchafswm o £20,000. Y cynnig ar gyfartaledd yw £9,200.
Gallwn ariannu hyd at 100% o gost y gwaith dan sylw.

Beth yw pwrpas hwn?

Cywerth â chymau 2 – 4 o Gynllun Gwaith RIBA

I'ch galluogi i symud ymlaen â datblygiad eich prosiect cyfalaf i'r cam nesaf.

Gallai hyn gynnwys datblygu'r manylion technegol a dylunio, cymorth ychwanegol i adeiladu gallu eich sefydliad trwy gyflogi neu gontractio rheolwr prosiect, mireinio'ch cynllun busnes, adeiladu ymgysylltiad cymunedol, a pharatoi cynigion ariannu. O fewn yr uchafswm uchod, gallai hyn fod yn fwy nag un grant dros amser, gan eich galluogi i symud ymlaen fesul cam.

Pwyntiau i'w nodi

Asesir ceisiadau am hyd at £10,000 o fewn amserlen fyrrach. Mae'n bosibl gwneud cais fwy nag unwaith ar gyfer camau gwaith olynol, hyd at uchafswm o £30,000 y prosiect. Fel rheol, mae'n rhaid cwblhau un darn o waith cyn i'r llall ddechrau.

Gallwn ariannu hyd at 100% o gost y gwaith dan sylw, er y bydd y pecyn gwaith cyffredinol sy'n ofynnol yn aml yn fwy nag y gallwn fforddio ei dalu ein hunain. Yn yr achos hwnnw, *er nad yw'n angenrheidiol, mae'n well gennym ni* weld rhywfaint o dystiolaeth sy'n profi bod ariannu cyfatebol wedi'i sicrhau neu wedi'u ceisio: nid oes rhaid i chi fod wedi sicrhau unrhyw ariannu cyfatebol i allu gwneud cais. Mae ariannu cyfatebol yn golygu y byddech chi'n cyfrannu at rai o'r costau o'ch adnoddau eich hun a/neu arian a gesglir o ffynonellau eraill. Er enghraifft, gallai costau o £40,000 olygu eich bod yn gwneud cais i'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol am £20,000 ac yn gwneud cais i ffynonellau eraill am £20,000. Byddech chi'n nodi hyn yn y ffurflen gais.

Os nad ydych eisoes yn berchen ar yr adeilad, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth i brofi bod gennych gytundeb ffurfiol i'w gaffael, er enghraifft y prif delerau, na all y perchennog eu diddymu heb achos da.

Dylech gael eich sefydlu'n ffurfiol, fel un o'r mathau o sefydliadau a restrir uchod.

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau fod yn seiliedig ar ddyfynbris cywir yn hytrach nag amcangyfrifiad. Os yw unrhyw eitem o waith yr ydych yn ceisio arian ar ei chyfer dros £10,000, rhaid i chi gael o leiaf tri dyfynbris cystadleuol. *Cysylltwch â swyddog cymorth os oes arnoch angen cymorth gyda hyn.*

Os nad ydych wedi cwblhau Arfarniad Hyfywedd Prosiect a ariennir gennym ni, bydd angen i chi ddarparu manylion y gwaith rydych wedi'i wneud i brofi hyfywedd eich cynlluniau – gallai hyn gynnwys arfarniad o'r opsiynau, cynllun busnes, neu ddogfennau eraill. Byddwn yn ystyried pa mor debygol ydyw y bydd eich prosiect yn gallu mynd ymlaen i ddenu'r cyllid cyfalaf sy'n ofynnol.

Bydd angen i chi ddangos y bydd y cynigion yn cydymdeimlo â chymeriad hanesyddol yr adeilad, ac nid yn ei niweidio. Rydym eisiau cadarnhad nad oes unrhyw reswm mewn egwyddor pam na fyddai caniatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig yn cael eu rhoi. Bydd angen i hyn ategu tystiolaeth sy'n profi eich bod wedi cymryd cyngor priodol, gan gynnwys cyngor gan weithwyr proffesiynol sy'n achrededig mewn cadwraeth.

Beth fydd y grant hwn yn eich helpu i'w gyflawni?

Ar ddiwedd y gwaith a ariennir, neu'r gyfres o grantiau pe bai'n fwy nag un, byddai disgwyl ichi gyrraedd y cam o sicrhau cyllid cyfalaf i alluogi cyflawni'ch prosiect.

Pa waith hyfywedd a datblygu y gellir ei ariannu?

Efallai y byddwch eisoes wedi cyflawni neu gomisiynu peth o'r gwaith hwn ar yr adeg y byddwch yn cysylltu â ni, ond bydd gennych rai bylchau i'w llenwi o hyd. Neu efallai eich bod yn dechrau o'r dechrau ac yn edrych ar opsiynau posibl. Gall ein hariannu eich helpu chi i gwblhau'r cynllun neu i symud ymlaen. **Ni allwn ariannu unrhyw waith sydd wedi cychwyn na chostau yr ydych wedi'u derbyn cyn i ni gyhoeddi llythyr cynnig grant.**

Bydd unrhyw waith sy'n hanfodol ar gyfer symud y prosiect ymlaen tuag at y nod o adfywio adeilad hanesyddol yn cael ei ystyried. Rhaid i ymgeiswyr esbonio sut y bydd darn penodol o waith neu weithgaredd yn galluogi hyn.

Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Cyflogi cydlynedd prosiect (naill ai rhywun a benodir yn allanol ar sail ymgynghoriaeth neu weithiwr/gweithwyr presennol sy'n gweithio oriau **ychwanegol** ar y prosiect penodol hwn).
- Ffioedd ar gyfer ymgynghorwyr sydd eu hangen i helpu i ddatblygu cynlluniau (e.e. pensaer, syrfêwr meintiau, peiriannydd adeileddol, peiriannydd mecanyddol a thrydanol).
- Prisiad eiddo gan brisiwr cofrestredig o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS).
- Ymgynghorwyr codi arian.
- Ymgynghorwyr cynllunio busnes.
- Costau sy'n gysylltiedig â datblygu cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol neu arianwyr cyfalaf eraill (e.e. cynllun gweithgareddau, cynllun hyfforddi, cynllun rheoli cadwraeth).
- Costau gwaith ymgysylltu â'r gymuned (e.e. allgymorth, digwyddiadau dros dro, ymgynghoriadau).
- Costau cyfreithiol lle mae hyn yn hanfodol wrth gadarnhau perchnogaeth neu hyfywedd defnyddiau arfaethedig (e.e. cyngor ar gyfamodau cyfyngedig) neu am gyngor ar lywodraethu (e.e. i bennu'r model cyfansoddiadol priodol ar gyfer cyflawni'r prosiect a gweithredu'r adeilad ar ôl ei gwblhau).
- Cyngor TAW arbenigol i nodi'r dull mwyaf effeithlon o ran treth ar gyfer y prosiect.
- Costau TAW na ellir eu hadennill.
- Gorbenion sefydliadol / costau gweinyddol.
- Aelodaeth blwyddyn gyntaf gyda'r Rhwydwaith Ymddiriedolaethau Treftadaeth (<https://www.heritagetrustnetwork.org.uk>).
- Costau sy'n gysylltiedig â throsi elusen neu fenter gymdeithasol bresennol yn Gymdeithas Budd Cymunedol.
- Yn ogystal â hyn, rydym yn argymhell ymuno â'r rhwydwaith **Fit for the Future** i gefnogi eich effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Gellir hawlio cost aelodaeth y flwyddyn gyntaf (£150 i'r mwyafrif o sefydliadau) fel cost gymwys yn rhan o'r grant hwn. Darganfyddwch fwy yn www.fff.org.uk/join.

Grantiau Gwaith Cyfalaf

Gallwch wneud cais am uchafswm o £50,000. Y cynnig ar gyfartaledd yw £34,800.

Gall hyn fod hyd at 100% o'r gwaith ond, ar gyfer cynlluniau mwy, byddwn yn disgwyl i'r cyllid cyfatebol gael ei sicrhau, neu ystod y camau olaf o gael ei gwblhau.

Beth yw pwrpas hwn?

Cyferwerth â chammau 4 – 5 o Gynllun Gwaith RIBA

Gall y grant ariannu costau'r gwaith atgyweirio, adfer a chadwraeth, a'r ffioedd cysylltiedig. Gall hefyd ariannu gwaith brys a gwaith sydd ei angen i brofi defnydd/defnyddiau 'yn y cyfamser', gan gynnwys gwasanaethau a gwaith ffio.

Pwyntiau i'w nodi

Bydd angen i'ch prosiect fod â'r potensial clir i ddarparu defnyddiau amgen a/neu strwythurau perchnogaeth a modelau buddsoddi i hwyluso adfywiad hirdymor yr adeilad.

Gallwn ariannu hyd at 100% o gost y gwaith dan sylw, er y bydd y pecyn gwaith cyffredinol sy'n ofynnol yn aml yn fwy nag y gallwn fforddio ei dalu ein hunain. Yn yr achos hwnnw, *er nad yw'n angenrheidiol, mae'n well gennym* weld rhywfaint o dystiolaeth sy'n profi bod ariannu cyfatebol wedi'u sicrhau neu wedi'u ceisio: nid oes rhaid i chi fod wedi sicrhau unrhyw gyllid cyfatebol i allu gwneud cais. Mae ariannu cyfatebol yn golygu y byddech chi'n cyfrannu at rai o'r costau o'ch adnoddau eich hun a/neu arian a gesglir o ffynonellau eraill. Er enghraifft, gallai costau o £150,000 olygu eich bod yn gwneud cais i'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol am £50,000 ac yn gwneud cais i ffynonellau eraill am £100,000. Byddech chi'n nodi hyn yn y ffurflen gais.

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau fod yn seiliedig ar ddyfynbris cywir yn hytrach nag amcangyfrifiad. Rhaid i chi gael o leiaf tri dyfynbris cystadleuol, gan y bydd y gwaith yn debygol o fod dros y trothwy o £10,000. *Cysylltwch â swyddog cymorth os oes arnoch angen cymorth gyda hyn.*

Os nad ydych wedi cwblhau Arfarniad Hyfywedd Prosiect neu waith datblygu prosiect a ariannwyd gennym ni, bydd angen i chi ddarparu manylion y gwaith rydych wedi'i wneud i ddangos hyfywedd a chynaliadwyedd hirdymor y prosiect – gallai hyn gynnwys cynllun busnes a dogfennau eraill.

Bydd angen i chi ddangos y bydd y cynigion yn cydymdeimlo â chymeriad hanesyddol yr adeilad, ac nid yn ei niweidio. Os nad oes caniatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig eisoes ar waith, o leiaf y bydd y ceisiadau wedi'u cyflwyno. Bydd angen i chi ein hysbysu o amserlen eich penderfyniadau yn eich cais i ni. Bydd angen i hyn ategu tystiolaeth sy'n profi eich bod wedi cymryd cyngor priodol, gan gynnwys cyngor gan weithwyr proffesiynol sy'n achrededig mewn cadwraeth.

Beth fydd y grant hwn yn eich helpu i'w gyflawni?

Os ydych chi'n gwneud cais am grant i gwblhau gwaith brys, bydd yr adeilad yn cael ei sefydlogi a bydd dirywiad pellach yn cael ei atal.

Ar ddiwedd y gwaith a ariennir, bydd yr adeilad mewn cyflwr y gellir ei ddefnyddio, naill ai ar gyfer y defnyddiau hirdymor fel y nodwyd yn eich cynllun busnes neu at ddefnyddiau dros dro 'yn y cyfamser' tra bo'r gweithgareddau codi arian yn mynd rhagddynt ar gyfer cyfnod mwy o waith cyfalaf.

Sut i wneud cais

Yn gyntaf, cwblhewch y [ffurflen ymholiadau ar-lein](#).

Yna bydd un o'n swyddogion cymorth yn cysylltu â chi i drafod eich prosiect.

Byddwn yn eich cynorthwyo i ddatblygu cais drafft, all-lein.

Yna bydd angen i chi lenwi'r ffurflen gais ar-lein yn yr adran [Rhaglenni Grant – Cymru](#) ar ein gwefan; yno fe welwch y Nodiadau Cymorth Cais am Grant (PDF) i'ch arwain wrth lenwi'r ffurflen.

Cyfeiriwch hefyd at y dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau yn adran [Dyddiadau cau a chymhwysedd](#) ein gwefan.

Pan gyflwynwch eich cais ffurfiol, byddwch yn derbyn copi electronig o'ch cyflwyniad yn awtomatig. Yn fuan wedi hynny, byddwn yn anfon cadarnhad atoch ac yn nodi dyddiad disgwylid y cyfarfod penderfynu lle byddwn yn ystyried eich cais.

Pan fyddwn yn adolygu eich cais, os oes unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae ei hangen arnom neu unrhyw beth sy'n aneglur, byddwn yn cysylltu â chi i ddarganfod mwy.

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn yn darparu adborth ynghylch y rhesymau dros hynny, a byddwn yn eich cynghori ynghylch a fyddai gwneud cais arall werth yr ymdrech.

Beth sy'n digwydd pan fydd grant wedi'i ddyfarnu?

Byddwch yn derbyn llythyr cynnig ffurfiol sy'n cynnwys telerau ac amodau. Bydd angen i chi gadarnhau eich bod yn derbyn y rhain cyn i chi ddechrau'r gwaith a ariennir.

Rydym yn darparu canllawiau ychwanegol i ddeiliaid grantiau, ond y pwyntiau allweddol i'w nodi ar hyn o bryd yw'r rhai canlynol:

Mae ein grantiau fel arfer yn ddilys am flwyddyn. Lle na chwblheir gwaith o fewn terfyn amser y grant, gallwn dynnu'r cyllid yn ôl, oni bai ein bod wedi cytuno i gais gennyh chi i ymestyn y terfyn amser.

Bydd angen i chi wneud adroddiadau cynnydd anffurfiol rheolaidd yn ystod y gwaith. Ar ôl ei gwblhau, efallai y byddwn yn gofyn ichi ddarparu diweddariadau am hyd at bum mlynedd, fel y gallwn ddeall y canlyniadau y mae ein cyllid wedi'u helpu i chi eu cyflawni.

Byddwn yn gofyn ichi roi cyhoeddusrwydd i'n cymorth i'ch prosiect fel un o amodau'r grant.

Gwneir taliadau grant mewn ôl-ddyledion, unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau: bydd angen i chi gyflwyno ffurflen hawlio ar-lein a lanlwytho copiâu o anfonebau a thystiolaeth o'r gwaith a gwblhawyd.

Os oes angen, gallwn dalu fesul cam; byddwn yn trafod ac yn trefnu hyn gyda chi.

Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl ichi fod wedi hawlio'ch grant yn llawn cyn gwneud cais am unrhyw rai eraill ar gyfer yr un prosiect, oni bai eich bod wedi cytuno fel arall gyda ni ymlaen llaw.

Bydd angen i chi gynllunio sut y byddwch yn talu'ch costau nes y gellir hawlio'r grant.

I gael mwy o wybodaeth am hawlio'ch grant, ewch i www.ahfund.org.uk/granholders